# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH, DDYDD MAWRTH 2 EBRILL 2019 AM 5:30PM.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Havard – Cadeirydd
Y Cynghorydd C. Andrews – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

A. Colllis, S. Cook, W. David, A. Farina-Childs, B. Miles, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds, a R. Whiting.

P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), P. O'Neil (Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd), M. Jacques (Swyddog Craffu) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mr R. Morgan (Rhiant-lywodraethwr), Mrs P.J. Ireland (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon) a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

E. Pryce a S. Jones (Gwasanaeth Cyflawni Addysg).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr: P.J. Bevan, D.T. Hardacre, M.P. James, Mrs G.D. Oliver a Mrs T. Parry a Mr M. Barry (Aelod Cyfetholedig).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION – 19 CHWEFROR 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019 (cofnodion rhif 1–11) fel cofnod cywir, a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 4. COFNODION – 7 MAWRTH 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes Arbennig a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2019 (cofnodion rhif 1–5) fel cofnod cywir, a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Cyfeiriodd Aelod at eitem 4 yn y cofnodion – Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (2019–2021) – Atodiad yr Awdurdod Lleol 2019–2020 – a dweud nad oedd dadansoddiad o'r ffigurau mewn perthynas â Chynghorwyr Her Cynradd ac Uwchradd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi dod i law. Rhoddodd Mr E. Pryce (Gwasanaeth Cyflawni Addysg) ddiweddariad ar lafar a chadarnhau, mewn perthynas â ffigurau Rhanbarthol, fod 48 o Benaethiaid Ysgolion Cynradd (35 ohonynt yn Gynghorwyr Her Partner) a 15 o Benaethiaid Ysgolion Uwchradd (2 ohonynt yn Gynghorwyr Her Partner). Mewn perthynas â bwrdeistref sirol Caerffili, mae 11 o Benaethiaid Ysgolion Cynradd a 4 o Gyn-benaethiaid Ysgolion Uwchradd.

## 5. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Roedd y Pwyllgor Craffu wedi cael Datganiad yr Aelod Cabinet, gan y Cynghorydd P. Marsden, a ddosbarthwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Roedd y datganiad yn rhoi diweddariad o'r digwyddiadau yr oedd hi wedi bod yn bresennol ynddynt, a bod yn rhan ohonynt, yn ddiweddar mewn perthynas â'i phortffolio. Cyfeiriodd Aelod at Wobrau Rhagoriaeth Athrawon Cerdd y Deyrnas Unedig, a gofyn am eglurhad ar y camau nesaf. Mae Ysgol Lewis Pengam a Thîm Datblygu'r Celfyddydau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ennill prif wobr yn y Gwobrau Rhagoriaeth Athrawon Cerdd, gan ennill y wobr 'Outstanding Rock, Pop or Production' ar gyfer eu prosiect cyfansoddi caneuon arloesol, 'Young Vision'. Dywedodd y Swyddogion fod y prosiect wedi sicrhau dyhead a llwyddiant i ddisgyblion o ran dilyn gyrfa ym myd cerddoriaeth, a dengys eu llwyddiant fod y disgyblion yn gallu datblygu a gweithio fel tîm yn llwyddiannus. Defnyddiwyd 'Young Vision' gan arolygiad ysgol Estyn fel arfer orau, ac mae trafodaethau i'w ddefnyddio fel glasbrint ar gyfer rhaglenni Pop a Roc Cenedlaethol posibl ar gyfer Cymru yn 2019. Ar hyn o bryd mae Swyddogion yn adolygu'r strwythur rheoli yn y gwasanaeth cerddoriaeth i gynyddu capasiti yn y maes hwn, ac maent eisiau edrych yn fanwl ar gyfleoedd wrth symud ymlaen. Trafodwyd hefyd yr adran 'Uchelgeisiau a Rennir' yn y strategaeth cyrhaeddiad newydd. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyflwyno gweledigaeth glir ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chyflawniad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet am ei hadroddiad.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

Dywedodd Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd fod Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor Craffu wedi mynychu Gweithdy Blaenraglen Waith cyn y cyfarfod hwn. Pwrpas y gweithdy oedd trefnu adroddiadau ar gyfer y 12 mis nesaf. Byddai'r Flaenraglen Waith ddrafft yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod hwn ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol yn y Pwyllgor Craffu nesaf a drefnwyd ar gyfer 21 Mai 2019. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD dosbarthu Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, ei chyflwyno'n ffurfiol i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 21 Mai 2019.

## 8. ADRODDIAD Y CABINET

Roedd y trydydd adroddiad a restrwyd fel eitem 8 – Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygu Darpariaeth Ôl-16 / Un Rhyw a Lleoedd Gwag – wedi'i alw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 13 Mawrth 2019. Roedd y Cabinet yn llwyr o blaid yr argymhellion y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes, a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2019, gan gynnwys cynyddu nifer yr Aelodau enwebedig ar y Bwrdd Adolygu o 2 gynrychiolydd i 4 cynrychiolydd. Yn ogystal, argymhellodd y Cabinet y dylai'r Pwyllgor Craffu ailystyried yr enwebiadau a gyflwynwyd i sicrhau gwasgariad daearyddol dros y fwrdeistref sirol gyfan.

Cefnogodd y Pwyllgor Craffu yr argymhelliad, a dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Cynghorwyr W. David a R. Saralis yn cynrychioli'r Grŵp Llafur. Y Cynghorydd J. Roberts fyddai'r cynrychiolydd cyntaf ar gyfer Grŵp Plaid Cymru, a byddai'r ail gynrychiolydd yn cael ei gadarnhau yn dilyn trafodaethau ar ôl y cyfarfod hwn.

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 9. BLAENORIAETHAU'R FFORWM IAU A'R FFORWM IEUENCTID

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Craffu gyda thristwch fod y bobl ifanc a oedd i fod yn cyflwyno yn y cyfarfod wedi mynychu angladd un o'u cyfeillion yn gynharach yn y dydd a'u bod wedi cyfleu eu siom ynghylch methu â rhoi eu cyflwyniad. Gofynnodd y Cadeirydd am anfon cydymdeimlad y Pwyllgor Craffu at y bobl ifanc ar yr achlysur trist hwn.

Cyflwynodd Uwch Reolwr y Gwasanaeth Ieuenctid yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am faterion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc drwy Fforymau Iau ac Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid. Roedd yr adroddiad yn ceisio barn yr Aelodau cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ar 24 Ebrill 2019. Mae'r Fforymau Iau ac Ieuenctid wedi'u strwythuro a'u trefnu o amgylch pum thema: Caerffili Ffyniannus; Caerffili Saffach; Caerffili sy'n Dysgu; Caerffili Iachach; Caerffili Wyrddach, sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gael llais ar faterion sy'n effeithio arnynt. Mae Cynrychiolwyr y Fforwm Iau yn 7–11 oed ac mae Cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid yn 11–25 oed. Yng Nghynhadledd Flynyddol y Fforwm Ieuenctid, rhoddir cyfle i bobl ifanc edrych ar faterion a godwyd yn flaenorol drwy ymgynghori ar draws y fwrdeistref sirol gyfan. Mae pobl ifanc sy'n mynychu'r Gynhadledd yn cyflwyno eu barn ar bob un o'r themâu ac yn cymryd rhan mewn deialog gyda Swyddogion perthnasol ac aelodau'r Cabinet. O archwilio'r holl themâu yng nghyd-destun bywydau pobl ifanc, mae'r bobl ifanc yn adnabod a chytuno ar fater blaenoriaeth ar gyfer pob thema. Yn dilyn y Gynhadledd, pleidleisiwyd ar y flaenoriaeth gyffredinol gan 2,656 o bobl ifanc a oedd yn cynrychioli'r Gwasanaeth Ieuenctid, Ysgolion a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid.

Nododd yr Aelodau y blaenoriaethau y pleidleisiwyd arnynt a nodwyd ym mharagraffau 5.2 a 5.3 yn yr adroddiad. Cadarnhawyd mai'r mater blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y Fforwm Ieuenctid yw 'Iechyd Meddwl' – dylid gwella gwasanaethau gyda chymorth pobl ifanc a dylai pobl ifanc gael addysg cymorth cyntaf iechyd meddwl. Mater blaenoriaeth gyffredinol y Fforwm Iau yw 'mwy o ymwybyddiaeth o gymorth ar faterion cyffuriau ac alcohol'. Nodwyd y broses sy'n dilyn y gwaith adnabod materion ym mharagraff 2.2 yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd Aelod at Gynhadledd y Fforwm Ieuenctid a fynychodd, a dweud yr oedd yn llawn edmygedd o ran y trafodaethau a gynhaliwyd, gan gyfeirio yn benodol at y mater iechyd meddwl. Roedd yr Aelod Cabinet hefyd wedi mynychu'r Gynhadledd, ac roedd hithau, yn yr un modd, yn llawn edmygedd o ran aeddfedrwydd yr ymatebion a ddarparwyd. Ychwanegodd fod pobl ifanc wedi dweud bod materion iechyd meddwl o'u hamgylch ym mhobman, a hefyd

fod modd i'r cyfryngau cymdeithasol gael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl. Cadarnhaodd Swyddogion fod gan bob ysgol uwchradd Gwnselwyr sy'n darparu cymorth. Sicrhawyd cyllid ar gyfer hyn, ac ni fydd unrhyw gynigion i sicrhau arbedion yn effeithio arno. Ceir cynnydd yn yr angen am gymorth, ac mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ('CAMHS') yn cael llif o atgyfeiriadau. Mae hefyd angen buddsoddi mewn hyfforddiant Thrive a Chynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol ('ELSA') i gefnogi plant a phobl ifanc.

Cyfeiriwyd at y blaenoriaethau blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu, ac a gefnogwyd ganddo, a holodd Aelod pam nad yw adborth o ran cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Awgrymwyd gwahodd y Fforwm Ieuenctid i fynychu'r cyfarfod nesaf, a drefnwyd ar gyfer 21 Mai 2019, i roi diweddariad am y materion blaenoriaeth, a chytunwyd ar hyn gan y Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) gefnogi materion y Fforymau Iau ac Ieuenctid, a'u cyflwyno i'r Cabinet;

(ii) cefnogi'r Fforwm Ieuenctid o ran mynd i'r afael â'i fater blaenoriaeth, sef iechyd meddwl;

(iii) cefnogi'r Fforwm Iau o ran mynd i'r afael â'i fater blaenoriaeth, sef codi ymwybyddiaeth am gymorth o ran materion cyffuriau ac alcohol;

(iv) cefnogi'r materion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## 10. CATEGOREIDDIO YSGOLION CENEDLAETHOL 2018–19

Cyflwynodd Mr E. Pryce a Ms S. Jones (Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)) yr adroddiad a gyflwynodd wybodaeth i'r Aelodau yn amlinellu'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion a sut mae ysgolion yng Nghaerffili wedi cael eu categoreiddio ar gyfer cefnogaeth eleni.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi cyflwyno'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion ym mis Medi 2014. Mae'r system, sy'n cwmpasu ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd dilynol. Ers 2017–2018, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r dyfarniad sy'n seiliedig ar ddata, a oedd yn rhoi ysgolion mewn grŵp safonau fel rhan o Gam 1. Mae trafodaethau o ran gwaith hunanarfarnu'r ysgolion a gwaith cynllunio datblygu'r ysgolion wedi dod yn nodwedd ganolog y model. Mae data'r ysgolion yn parhau i fod yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau yn yr ysgolion, a chyda'r Cynghorwyr Her, am eu gallu i wella o ran arweinyddiaeth, addysgu a dysgu.

Trafodwyd deilliannau pob cam o'r broses gategoreiddio, ac eglurwyd yr amgylchiadau a allai effeithio ar gategorïau cefnogaeth yr ysgolion ac elfennau asesu perfformiad ysgolion. Darparwyd trosolwg mewn perthynas â'r Adolygiad gan Gymheiriaid, y Broses Safoni a Chymedroli Ranbarthol, a'r Broses Ddilysu Genedlaethol a gynhaliwyd.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at baragraffau 5.14 a 5.15 yn yr adroddiad, sy'n nodi Categorïau Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar gyfer 2018/19. O ran Ysgolion Cynradd, eglurwyd nad oes unrhyw gyfartaleddau cenedlaethol ar gael yn rhwydd ar gyfer data Cam 1 a Cham 2, ac ni ddefnyddir data Cam 1 ar gyfer categoreiddio eleni. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran yr ysgolion yn y categori gwyrdd wedi cynyddu ar gyfer Cam 2, ac mae bellach yn 55%. Ar Gam 3, mae cyfran yr ysgolion yn y categori gwyrdd yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol

a'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae'r gyfran yn y categori coch yn unol â'r cyfartaledd rhanbarthol, ond yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O ran Ysgolion Uwchradd, yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, nid oedd unrhyw ysgol yn y categori gwyrdd ar gyfer Cam 2. Ar Gam 3, nid oes unrhyw ysgol uwchradd yn y categori gwyrdd, fodd bynnag, mae cyfran yr ysgolion yn y categori coch yn llai na'r cyfartaledd rhanbarthol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Holodd Aelod sut mae nifer y diwrnodau o ran amser y Cynghorwyr Her yn cael eu dyrannu i bob ysgol. Dywedodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar yr amser yn 2014 fel rhan o'r broses ail-gategoreiddio ac, o ran cyllid grant, cytunir ar hyn ar yn rhanbarthol. Cyfeiriodd Aelod at gymedroli deilliannau herio, ac eglurwyd mai Cynghorydd Her annibynnol sy'n ymgymryd â'r broses hon, a'i rôl yw ystyried y dystiolaeth wreiddiol ac yna gytuno neu anghytuno â'r penderfyniad gwreiddiol. Yna, mae'r penderfyniad hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cymedroli Rhanbarthol.

Holodd Aelodau a oedd ysgolion ar y cyfan yn hapusach i aros yn y categori melyn gyda chefnogaeth yn hytrach na symud ymlaen i'r categori gwyrdd. Eglurodd Swyddogion nad oes rhaid i'r gefnogaeth ddiflannu os ydynt yn cael eu rhoi yn y categori gwyrdd gan fod modd cynnig hyn o hyd, os oes angen, fel rhan o'r daith wella. Mae hyn yn ymwneud yn fwy â dosbarthu ansawdd arweinyddiaeth ar draws y sefydliad. Mae angen i ysgolion a phenaethiaid fod yn agored ac yn onest gyda'r Awdurdod Lleol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio cymorth ar arweinyddiaeth, a bydd hyn yn cael ei fonitro drwy adroddiadau hunanarfarnu cywir a gonest, a bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud gydag Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol. Defnyddir y wybodaeth i ganolbwyntio ar draws yr ysgol ac i ddatblygu'r gallu i arwain drwy weithio ar y cyd mewn meysydd allweddol. Pwysleisiodd Swyddogion bwysigrwydd osgoi dyblygu gwaith gyda'r GCA a'r Awdurdod Lleol (ALl), yr angen i symleiddio cefnogaeth a chroesawu newid diwylliant. Mae'r ALl wedi argymell sesiynau hyfforddi ar gyfer Penaethiaid, a fydd yn cynnwys 6 diwrnod o raglen hyfforddi datblygu a fydd yn ategu'r gefnogaeth a ddarperir gan y GCA.

Mynegodd Aelod bryderon am anghydbwysedd rhwng Cynghorwyr Her sy'n Benaethiaid Ysgolion Cynradd/Uwchradd. Cadarnhaodd Swyddogion mai'r pwynt allweddol yw'r cynnydd a welwyd ar draws y rhanbarth, ac mae Caerffili wedi gweld gwelliant sylweddol yn yr Ysgolion Cynradd. Mae'n bwysig cynnal perthynas weithio dda rhwng Cynghorwyr Her, Penaethiaid ac ysgolion. Mae meddu ar y sgiliau cywir a threfnu'r gefnogaeth orau gyda Phenaethiaid ac Arweinwyr Canol, sydd yn y system ar hyn o bryd (gan eu bod yn wynebu'r un profiadau a heriau), yn hanfodol. Pwysleisiodd Swyddogion fod categoreiddio yn ymwneud â chynyddu lefel y gefnogaeth a ddarperir i'r ysgolion ac nid yw'n ddyfarniad, ac na ddylid ei ystyried yn feirniadaeth fawr. Mynegodd Aelodau bryderon bod y categorïau'n cael eu hystyried yn negyddol ac mae hyn yn hanfodol anghywir, ac mae angen mynd â'r neges hon yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i'w gydweithwyr o'r GCA am eu hadroddiad ac am ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn ystod y ddadl.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 6:50pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2019 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

________________________

CADEIRYDD